**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1030
Ein cyf/Our ref KW/05613/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

5 Hydref 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Medi am ohebiaeth y mae'r Pwyllgor Deisebau wedi'i derbyn oddi wrth Camilla Watts. Nododd fy swyddogion fod y ddeiseb yn ymwneud â chymryd mesurau ataliol mewn perthynas â dyfeisiau di-wifr mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd.

Derbyniodd fy swyddfa sawl darn o ohebiaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oddi wrth Ms Watts yn ymwneud ag effeithiau iechyd posibl Wi-Fi. Cydgysylltwyd ein hymatebion i Ms Watts gan swyddogion o Is-adran Dysgu Digidol ac Is-adran Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru, Public Health England (PHE) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

O ran unrhyw faterion sy'n ymwneud ag effeithiau iechyd Wi-Fi, mae Llywodraeth Cymru'n cael ei chynghori gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd yn ei dro yn cael ei gynghori gan PHE. Ar sail sawl astudiaeth a gyhoeddwyd a'r rhai a gynhaliwyd yn fewnol, mae PHE wedi dod i'r casgliad nad oes angen unrhyw gamau arbennig i leihau cyswllt plant â lefelau isel tonfeddi radio oddi wrth rwydweithiau Wi-Fi, nac unrhyw reswm ar hyn o bryd pam na ddylai Wi-Fi barhau i gael ei ddefnyddio mewn ysgolion a mannau eraill.

Cynhaliodd PHE raglen ymchwil systematig i rwydweithiau di-wifr a'u defnydd mewn ysgolion, gan gynnwys mesur peryglon rhwydweithiau. Mae canlyniadau'r ymchwil yn cefnogi safbwynt PHE fod peryglon Wi-Fi yn isel mewn perthynas â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ICNIRP) a phan maent yn cael eu cymharu â pheryglon tebyg ffonau symudol.

Yn dilyn cyfarfod rhwng cynrychiolwyr Is-adran Dysgu Digidol ac Is-adran Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru, PHE ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, lluniwyd nodyn cyngor newydd ar y cyd ag arbenigwyr ymbelydredd o PHE. Gellir dod o hyd i grynodeb o'r cyngor yma.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cenhadaeth ein Cenedl ar gyfer Addysg yng Nghymru yw darparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i blant a phobl ifanc, gan feithrin eu gallu i oresgyn problemau. Mae cymhwysedd digidol yn rhan annatod o hynny i'w galluogi i ffynnu mewn byd sy'n newid yn gyson.


Yn ystod y blynyddoedd diweddar, rydym wedi buddsoddi'n helaeth mewn seilwaith a gwasanaethau digidol drwy ystod o raglenni. Rwy'n ymrwymedig i sicrhau gwelliannau parhaus mewn Technoleg Addysg ledled Cymru. Mae fy swyddogion bellach yn canolbwyntio ar sut y gall rhaglenni buddsoddi diweddar gefnogi ysgolion i fabwysiadu ac ymgorffori dysgu digidol yn yr ystafell ddosbarth, yn ogystal â pharhau i symleiddio a safoni'r ffordd y mae gwaith digidol a TGCh yn cael eu cyflwyno mewn cyd-destun ysgol.

Ochr yn ochr â hyn, crëwyd ein Safonau Digidol Addysg i helpu ysgolion i ddeall, rheoli a gweithredu eu hamgylchedd ddigidol – naill ai drwy eu rheoli eu hunain neu drwy gymorth eu partner TG. Mae'r wybodaeth yn cwmpasu pob agwedd ar reoli defnydd band eang ysgolion, gan gynnwys ffurfweddiad y rhwydwaith, ac mae'n nodi pob opsiwn sydd ar gael i ysgolion o ran cysylltedd â dyfeisiau.

Awdurdodau lleol unigol sy'n gyfrifol am TG mewn ysgolion a gynhelir. Dim ond cynnig canllawiau y gallwn ni ei wneud i awdurdodau lleol, sydd wedyn yn gorfod gwneud penderfyniadau yn lleol. Mae cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhan annatod o'r Safonau Digidol Addysg ar rwydweithiau di-wifr. At hynny, cyfeirir yn glir yn y safonau at agweddau iechyd a diogelwch unrhyw seilwaith a weithredir. Maent yn cadarnhau mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw cynnal yr asesiadau risg priodol.

Rwy'n fodlon ein bod wedi darparu canllawiau digonol i awdurdodau lleol ac ysgolion i gynorthwyo gyda'u gwaith o wneud penderfyniadau wrth ystyried gosodiadau rhwydwaith di-wifr. Rwyf wrth gwrs yn hapus i'ch helpu gydag unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen ar y Pwyllgor Deisebau wrth ichi adolygu cais Ms Watts.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education